



Prosiect WêMôn



Scouts

Ynys Môn
Anglesey

**Llawlyfr i'r Cyfryngau
Cymdeithasol**

#ScoutsMon

#SgowtiaidMôn

#SkillsForLife

#SgiliauAmFywyd

Ysgrifennwyd gan Ben Exton & Alys Bailey-Wood

Golygwyd gan Niall Marsay & Emma Williams

Cefnogwyd gan Stephen Buckley

Also available in English

Cynnwys

Lle mae popeth?

Rhagarweiniad	3
Brandio	4
Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol	6
Blog i'r Cyfryngau Cymdeithasol	10
Creu cynnyws	12
Postio a rheoli eich cynnwys	16
Dadansoddi	18
Tipiau	20
Atodiad 1 – Ein Strategaeth	21
Atodiad 2 – Eich Strategaeth	23

Rhagarweiniad

Beth yw hyn?!

Pam ysgrifennon ni'r llawlyfr?

Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn cynnig nifer o fuddion, a pheryglon, i fudiad fel y Sgowtiaid. Mae llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol ar y cyfan yn hawdd i'w ddefnyddio ond er mwyn eu defnyddio'n dda mae'n cymryd ystyriaeth, cyd-drefniant a disgyblaeth. Pwrpas y llawlyfr yma yw dangos i wirfoddolwyr sut i gyflawni hyn trwy ddilyn ymagwedd syml a hawdd i ddeall.

Sut ddylai'r llawlyfr cael ei ddefnyddio?

Mae gan bob adran i'r llawlyfr hon trosolwg o bob testun fel eich bod yn gallu deall y bwriad, ac yna mae darluniau eglurhaol i ddangos sut cafodd ei weithredu gan SgowtiaidMôn.



Mae'r prosiect yma wedi cael ei ymgymryd gyda'r Llawlyfr i SgowtiaidMôn yma mewn cwblhad rhannol i Gwobr Sgowtiaid y Byd.


Rydym yn datblygu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol SgowtiaidMôn er mwyn buddio ein prif nod o ddatblygu strategaeth recriwtio cynaliadwy ar gyfer Ardal Sgowtio Ynys Fôn.

Brandio I

Y canolfan brandio yw eich ffrind.

Mae yna ddogfen faith gan Gymdeithas y Sgowtiaid sy'n manylu defnydd cywir brand y Sgowtiaid ond y tudalennau fwyaf pwysig i ni yw'r lliwiau a ffont (neu "teipograffeg" os ydym am fod yn ffansi).

Mae modd ddod o hyd i'r holl ddogfen ar y Canolfan Brandio ond dyma'r adrannau allweddol
scoutsbrand.org.uk/



Lliwiau

Dyma'r lliwiau (gan gynnwys du a gwyn yn amlwg) a ddefnyddir ym Mrandio Sgowtio a Coch yw'r lliw swyddogol ar gyfer ScoutsCymru.

Porffor

RGB r116 g20 b220

Gwyrddlas

RGB r0 g167 b148

Gwyrdd

RGB r35 g169 b80

Glas

RGB r0 g110 b224

Coch

RGB r226 g46 b18

Pinc

RGB r255 g180 b229

Glas Tywyll

RGB r0 g58 b130

Melyn

RGB r255 g230 b39

Brandio II

Y canolfan brandio yw eich ffrind.

Ffontiau

Ffont brandio'r Sgowtiaid yw Nunito Sans, sydd ar ddim o Google yn y ddolen isod. Mae'n hawdd i lawr lwytho, sefydlu a defnyddio ar draws pob rhaglen.

fonts.google.com/specimen/Nunito+Sans

Black ar gyfer pennawdau a hashnodau

Extra Bold ar gyfer brandio lleol wedi'i phersonoli

Regular ar gyfer testun ar cefndir lliw caled


Light ar gyfer testun at gefndir gwyn

Logos

Mae yna eneraduron logo ar y Canolfan Brandio sydd yn gwneud y Gwaith caled i gyd i chi (bron). Ewch i'r Canolfan Brandio a chliciwch ar "Logos" ar yr ochr dde. Mae modd gwneud hyn ar gyfer logos Cymdeithas y Sgowtiaid, logos eich adrannau, a mwy.



Rydych chi hefyd yn gallu lawrlwytho lluniau o'r bathodynau, templedi, pamffledi (mae'r rhai digidol am ddim!), animeiddiadau a fideos, a cymaint mwy




Cofiwch, gallwch ffeindio'r Canolfan Brandio yma... scoutsbrand.org.uk/

Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol

Gwahaniaethau yn y cyfryngau cymdeithasol.

Instagram:

- Mae rhaid i chi postio lluniau ar Instagram, felly mae'n bwysig iawn i feddwl am lun o ansawdd da a sut fyddai'n edrych (byddwch yn ymwybodol bod Instagram yn tocio lluniau sy'n rhy fawr – bydd Hootsuite yn helpu'n fwy gyda hyn).
- Mae modd ysgrifennu capsionau ar Instagram, ond mae'n gweithio'n well gyda capsionau mwy fyr gyda'r lluniau.
- Lle dda i ddefnyddio hashnodau – defnyddiwch cymaint y gallech chi (heb ei or-wneud)
- Cadwch ar ben faint o bobl sy'n eich ddilyn, yn ogystal a phwy ydych chi'n dilyn – mae'n syniad da i ddilyn busnesau/pobl lleol yn ogystal a proffilau Sgowtio eraill. Os ydych chi'n dilyn eraill, maen nhw'n debygol o'ch dilyn chi nol.



Trydar:

- Mae gennym ni ddwy gyfrif Trydar – Cymraeg (@SgowtiaidMon) a Saesneg (@ScoutsMon) felly bydd rhaid gwneud 2 post gwahanol ar bob un o'r cyfrifau (ond peidiwch â phostio yn Gymraeg ar y cyfrif Saesneg, neu'r gwrthwyneb)
- Mae lluniau'n gweithio'n dda iawn yma – mae gan Drydar cyfrif cymeriad o 280 cymeriad
- Tagiwch bobl – mae'n gweithio'n dda iawn yma
- Cadwch ar ben pwy sy'n eich dilyn a pwy rydych chi'n ei ddilyn – yr un peth ag Instagram!





Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol II

Gwahaniaethau yn y cyfryngau cymdeithasol.

Facebook:

- Mae cynnwys hir yn gallu gweithio yma, ond bydden ni ond yn ei argymhell os ydy hyn yn angenrheidiol.
- Mae lluniau'n gweithio'n dda iawn, yn enwedig gyda chapsiwn ddwy ieithog
- Mae tagio pobl fel arfer yn gweithio'n dda iawn, felly mae'n syniad da i ddefnyddio hyn (e.e. os ydych yn postio lluniau o grŵp, ceisiwch dagio'r tudalen fel bod rhieni yn medru gweld lluniau o'i phlant)
- Yn dueddol o fod yn fwy poblogaidd gyda phobl hyn (fel rhieni neu arweinwyr).



Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol III

Gwahaniaethau yn y cyfryngau cymdeithasol.

Facebook, parhad...

Gwahaniaethau rhwng Grwpiau a Tudalennau

Grŵp

Yn dueddol o fod yn fwy preifat

Dim ond aelodau o'r grwpiau sy'n medru gweld cynnwys, heblaw os mae aelod yn rhannu post

Bydd rhan fwyaf o grwpiau Sgowtiaid gyda Grwpiau Facebook Preifat ei hun – mae hyn yn golygu bod angen I rhieni ofyn I ymuno (fel bod arweinwyr yn medru rheoli pwy sy'n gweld y cynnwys ac mae'n fwy diogel ar y cyfan)

Mae unrhywun fel arfer yn medru postio o fewn grwp heblaw os ydy'r 'admin' (y person sy'n rheoli'r grwp) wedi newid y gosodiadau I ond caniatáu I pobl penodol medru postio

Rydych chi'n medru ymuno a grwp. Sy'n golygu eich bod chi'n gallu gweld popeth sy'n digwydd o fewn y grwp

Mae pobl yn medru darganfod y grwp yn hawdd, ond dydy'r 'admin' ddim angen ei derbyn os nad ycynt yn siwr pwy yw'r person neu ddim yn disgwyl aelodau Newydd. Dyma pam maen nhw'n fwy ddiogel ar gyfer grwpiau Sgowtio ond mae dal angen bod yn ymwybodol postio unrhywbeth sy'n cynnwys pobl ifanc dal angen caniatad.

Ni ddylech chi ei ddefnyddio ar gyfer hysbysebu felly does dim modd hybu sawl person sy'n gweld eich cynnwys. Ei prif pwrpas yw I rhannu gwybodaeth a lluniau I rhieni, nid hyrwyddo'r mudiad.

Tudalen

Mae popeth rydych chi'n postio yn gyhoeddus

Mae unrhyw un sydd wedi hoffi neu dilyn eich tudalen yn medru gweld eich cynnwys

Bydd yr Ardal yn fwy tebygol o gael tudalennau er mwyn rhannu beth mae pawb wedi bod yn gwneud. Mae hyn yn golygu bod cynnwys yn fwy cyhoeddus felly bydd angen caniatad gan grwpiau I rhannu cynnwys (yn enwedig os yw'n cynnwys lun o berson ifanc)

Dydy pawb ddim yn medru postio ar tudalen – dim ond yr 'admin' neu 'editor' sy'n gallu felly mae ganddynt rheolaeth dros sut rydym yn cael ein portreadu ar lein

Rydych chi'n hoffi a dilyn tudalen – mae modd dewis I beidio dilyn ar Facebook, ond mae dal modd ei hoffi (felly mae gennych chi'r opsiwn I weld ei cynnwys ar eich 'news feed')

Mae unrhywun yn medru ffeindio tudalen – felly mae modd I unrhywun ffeindio eich cynnwys. Does dim angen gwneud cais I'w ddilyn oherwydd ei fod mor gyhoeddus, ac mae hyn yn dod gyda cyfrifoldeb dros y cynnwys.

Mae modd defnyddio tudalen er mwyn hyrwyddo – rydych chi'n gallu talu I sicrhau bod mwy yn gweld eich cynnwys a defnyddio eich cynnwys fel hysbysiadau.

Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol III

Straeon, #au ac @'s.

Straeon:

- Ffordd gyflym a hawdd i rannu darnau bach o wybodaeth
- Gall hyn annog pobl i edrych ar eich cynnwys fwyaf diweddar neu i atgoffa pobl o rywbeth
- Mae modd ddefnyddio cynnwys rhyngweithiol fel pleidleisio dros rywbeth
- Mae gan straeon terfyn amser felly mae rhaid iddynt fod yn hawdd i'w ddeall a gyflym i ddarllen
- Mae gan Instagram a Facebook straeon, ond dydy popeth ddim yr un fath rhwng y ddau:
- Instagram – 'polls', cwestiynau, sticeri, 'countdown', botymau
- Facebook – botymau gwahanol a rhai sticeri
- Mae straeon yn gweithio'n well ar Instagram ac mae yna opsiwn i bostio un peth ar yr un pryd i straeon Instagram a Facebook trwy'r ap Instagram, ond mae hyn yn golygu bod y cynnwys rhyngweithiol i gyd ddim yn mynd i weithio ar y ddau



Esiaml o Stori Instagram

#au ac @'s:

- @ - crybwyll cyfrif arall. Bydd y person sy'n rhedeg y cyfrif arall yn cael gwybod a bydden nhw gyda'r opsiwn i hoffi, rhannu neu sylwi ar eich post. Mae hyn syniad da os ydych yn creu post am berson enwog neu lysgennad (e.e. ar gyfer ei phen-blwydd) a bydden nhw fel arfer yn rhannu eich post. Mae hyn yn golygu cyhoeddusrwydd i chi. Mae Facebook yn dda iawn am hyn.
- # - defnyddir hashnodau ar gyfer crybwyll gweithgareddau neu ymadroddion, er enghraifft rydym yn defnyddio #SgiliauAmFywyd gyda Sgowntio. Mae hyn yn golygu os ydy rhywun yn chwilio am hashnod penodol bydd ein post yn ymddangos. Mae Instagram a Thrydar yn dda iawn gyda hyn, felly defnyddiwch cymaint ag y gallech chi ond gwnewch yn siŵr eu bod yn berthnasol a pheidiwch fynd dros ben llestri.

#ScoutsMon #SgowtiaidMon
#SkillsForLife #SgiliauAmFywyd

Blog i'r Cyfryngau Cymdeithasol I

Sut i gwneud blog mewn i cynnwys Cyfryngai Cymdeithasol.

Cam 1:

- Meddylwch am beth sy'n mynd i fynd yn eich blog (mae'n haws i ddechrau gyda'r blog oherwydd ei fod yn hirach felly gallech chi roi mwy ynddi).
- Cofiwch i gynnwys lluniau i dorri lan yr ysgrifennu a'i gwneud yn haws i bobl i ddarllen.

Cam 2:

- Cyhoeddwch eich blog – rhowch y blog ar y wefan a sicrhewch ei fod yn edrych sut oeddech chi eisiau (mae gwastad modd newid pethau os nad ydych yn hapus)
- Mae bach yn hir ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol, ond mae modd ei dorri lawr.

Scouts

Llanfairpwll Scouts have also been having weekly Zoom meetings and have been very busy with fun Scouting activities. They enjoyed taking part in a virtual camp at the end of April, as well as a virtual campfire in May where the Scouts played music and even did some outdoor cooking. They have also drawn self portraits, re-created famous paintings, made collages of the area they live in and 3 new Scouts have even been invested over Zoom.


Scouting may not be the same as before lockdown, but our groups really are making the best out of the situation. Thank you to their leaders for the fantastic online meetings, and although we hope to get back to normal Scouting soon it's brilliant to see our young people still being involved with weekly Scouting activities.




A virtual campfire for Llanfairpwll Scouts



Dyma'r blog gwreiddiol ar ein gwefan



Girl with a Pearl Earring, Vermeer



Girls At The Piano, Renoir

www.scoutsmon.wales

[@ScoutsMon](https://www.facebook.com/ScoutsMon)

[@monscouts](https://www.instagram.com/monscouts)

[@MonScouts](https://twitter.com/MonScouts) (English)

[@SgowtiaidMon](https://twitter.com/SgowtiaidMon) (Cymraeg)

Posted in [blog](#)

Blog i'r Cyfryngau Cymdeithasol II


Sut i gwneud blog mewn i cynnwys Cyfryngai Cymdeithasol

Cam 3:

- Dyma le rydych chi'n mynd i ddechrau creu eich cynnwys ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol
- Edrychwch trwy'r blog a gwnewch nodyn o'r pwyntiau fwyaf pwysig – bydd ddim angen pob un ohonynt ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ond bydd rhai postiau yn hirach nag eraill (yn dibynnu ar y llwyfan)
- Dylai fod cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn fersiwn fer o'ch blog, dim ond yn crybwyll y pwyntiau pwysig

Cam 4:

- Naill ai postiwch neu'r post neu ychwanegwch y post i'r amserlen trwy Hootsuite (neu unrhyw beth arall rydych chi'n ffeindio'n hawdd gwneud hyn)
- Cofiwch i ddefnyddio'r un lluniau a'r blog.
- Mae hefyd yn werth rhoi dolen i'r blog ar y post fel bod gan bobl yr opsiwn i'w ddarllen os ydyn nhw eisiau.



Er mwyn ei rhoi ar y Cyfryngau Cymdeithasol, wnaethon tni dorri'r rhan fwyaf o'r brawddegau hir a rhestru'r gweithgareddau ynglyn ag ychwanegu fwy o luniau – mae lluniau'n gweithio'n wych ar y Cyfryngau Cymdeithasol!

Cofiwch: Mae rhai postiau ar Cyfryngau Cymdeithasol angen bod yn fyrrach ag eraill yn dibynnu ar ba llwyfan rydych chi'n defnyddio felly ceisiwch gwneud pob un more fyr a phosib – mae bod yn rhy fyr yn well na fod yn rhy hir

Creu cynnwys I

Y mathau o gynnwys wedi'i postio gan Sgowtiaid Môn.


Beth sy'n gweithio?

- Mae cynnwys gweledol yn gweithio'n dda iawn ar y Cyfryngau Cymdeithasol ac mae'n tueddu o gael fwy o ryngweithiad gan bobl
- Mae pobl yn brysur felly mae'n dda i gadw hwn mewn cof wrth gynllunio ac ysgrifennu eich postiau – mae cynnwys fyrrach gyda chynnwys gweledol yn dueddol o gael fwy o ryngweithiad na chynnwys hir iawn heb gynnwys gweledol.
- Mae angen i gynnwys fod yn berthnasol i'n hachos. Mae'n bwysig iawn i rannu/postio am bobl fel Scouts Cymru, Scouts UK a Llysgenhadon y Sgowtiaid

Knock, knock...



Scouts
Yny
Ang



Llanfairpwll Scouts

Ffaith Dydd

Gwener

Roedd y dyn talaf byth i fyw, Roedd y dyn talaf byth yn Sgo

Fun Fact Friday

John Lennon and Paul McCartney went to Cubs toget

Ffaith Dydd

Gwener

I farcio canmlwyddiant y Sgowtiaid yn 2007, plannodd Sgowtiaid dros hanner miliwn coeden ar draws y DU



- Os ydy pobl yn anfon lluniau o grwpiau yn yr Ardal, postiwrch nhw – mae rhieni yn hoffi gweld eu plant ar y tudalennau (gyda'i chaniatâd – peidiwch â rhannu unrhyw luniau o bobl ifanc heb caniatad gan rieni) ac mae aelodau eraill yr ardal yn hoff o weld beth mae pawb arall wedi bod yn gwneud.
- Postiwch yn gyson, bydd pobl yn dod i arfer gweld eich cynnwys yn enwedig os ydych chi'n cadw rhai yn debyg pob wythnos (e.e. Ffaith Dydd Gwener).
- "Competitions are like crack" – maen nhw'n dueddol o dderbyn llawer o ryngweithiad ac yn gallu denu llawer o bobl i'ch tudalennau. Mae'r gwobrau yn gallu bod yn syml iawn ac maen nhw'n hawdd iawn i redeg.
- Os ydy math penodol o bost yn stopio gweithio, newidiwch beth ydych yn gwneud. Dydy'r un pethau ddim yn mynd i weithio am fyth ac mae'n bwysig i gadw lan i ddyddiad gyda'r 'trends' ar-lein fwyaf diweddar. Defnyddiwch y dadansoddi gan Hootsuite, mwy ar hyn yn hwyrach...

Creu cynnwys II

Y mathau o gynnwys wedi'i postio gan Sgowtiaid Môn.

Beth sydd ddim yn gweithio?

- Dydy pobl ddim eisiau darllen cynnwys hir iawn, felly ceisiwch gadw popeth mor fyr â phosib.
- Mae cylchlythyron yn aneffeithiol yn enwedig o ran amser: Dydy pobl ddim yn dueddol o'u ddarllen, maen nhw'n cymryd llawer o ymdrech i'w greu ac mae'r un cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn dueddol o gael mwy o ryngweithiad
- Postiwch yn aml, ond ddim yn rhy aml. Os oes gormod ohonyn nhw bydd pobl ddim yn eu gweld a bydd neb eisiau dilyn eich tudalennau
- Ond mae llwyfannau gwahanol yn gweithio'n wahanol. Mae Trydar yn gweithio'n gronolegol ac mae modd i'ch cynnwys cael ei golli felly mae mwy aml yma yn well. Modd bynnag, mae Facebook yn gweithio'n algorithmig, ac mae cynnwys sy'n perfformio'n dda yn fwy tebygol o gael ei ddangos i ddefnyddwyr.



Beth i fod yn ymwybodol o:

- Mae gofyn i arweinwyr am luniau o bobl ifanc yn ffordd hawdd iawn o greu cynnwys, ond mae'n gallu cymryd amser. Mae ceisio gwneud i bobl gofio i anfon lluniau i chi yn gallu bod yn anodd felly peidiwch â dibynnu ar luniau pobl eraill yn unig ar gyfer eich cynnwys
- Mae popeth angen fod yn ddwy ieithog – rydym wedi gweld bod rhoi'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn ail yn gweithio'n well i ni
- Gwnewch yn siŵr bod eich cyfieithiadau Cymraeg yn gywir – sicrhau eich bod chi'n rhoi popeth trwy wirydd sillafu cyn postio (Cysill yw un o'r gorau)



Creu cynnwys III


Y mathau o gynnwys wedi'i postio gan Sgowtiaid Môn.

Da:

- Gwnewch gynnwys cyfryngau cymdeithasol o gynnwys blog ar y wefan – mae'r rhain yn gallu bod yn ffordd hawdd iawn o greu cynnwys. Mwy ar hyn yn hwyrach...
- Defnyddiwch y canolfan brandio cymaint ag y gallech chi – mi fydd yn cyd-fynd gyda beth mae tudalennau Sgowtio arall ar lein yn gwneud, edrych yn broffesiynol ac yn cadw ar frand.
- Dilynwch dudalennau Sgowtio llwyddiannus eraill – bydd y rhain yn helpu chi i wybod beth sy'n gweithio a gallech chi ddysgu ohonynt hefyd.
- Ceisiwch fod yn ymwybodol o'r 'trends' fwyaf diweddar ar lein – os oes sialens bydd yn addas ar gyfer Sgowtiaid i gymryd rhan ynddi, syniad da bydd i gael grwpiau i gymryd rhan yn barod i chi ei rhoi ar dudalennau cymdeithasol yr Ardal

Gwael:

- Postio lluniau o bobl ifanc heb ganiatâd
- Postio unrhyw beth sydd amherthnasol i'r achos
- Postio unrhyw beth sy'n gallu cael ei thybio'n anaddas, fel memes – maen nhw'n gallu bod yn ddoniol ond weithiau'n anaddas i fod yn rhannu o dudalen yr Ardal. Mae'r rhain yn well i osgoi.
- Postio'n rhyw aml – bydd pobl yn diflasu a stopio dilyn eich tudalen
- Glynu wrth y un math o gynnwys – bydd angen i chi newid tactegau unwaith mae rhywbeth yn stopio gweithio. Dydy'r un peth ddim yn mynd i weithio am byth ac mae angen i chi newid gyda'r amser a phostio beth sy'n berthnasol heddiw i osgoi edrych yn hen ffasiwn.



Byddwch yn rhan o ymgyrchiadau fwy fwy, mae'n helpu i dyfu eich cynulleidfa a bod yn fwy ddarganfodol!



Efallai bod y meme yma'n ddoniol ond a yw'n addas ar gyfer tudalen yr Ardal?



Er taw Coch yw lliw Scouts Cymru, peidiwch a'i gor-wneud

Creu cynnwys IV

Y mathau o gynnwys wedi'i postio gan Sgowtiaid Môn.

Fideos:

- Dydyn ni ddim wedi arbrofi llawer gyda rhain, ond mae pobl wedi eu hawgrymu fel cynnwys gweledol da
- Maen nhw'n gallu bod yn ffordd dda o gael cynnwys sy'n esbonio ei hun – bydd dim angen ysgrifennu llawer i fynd gyda'r fideo felly maen nhw'n gallu bod yn dda iawn pan mae'r cyfrif cymeriad yn weddol fach
- Maen nhw angen bod yn eithaf byr, ddim yn hirach na 1 munud 30 eiliad, neu bydd pobl yn colli diddordeb a ddim eisiau rhyngweithio gyda'r cynnwys yn bellach
- Gwnewch yn siŵr bod eich fideos yn berthnasol – maen nhw'n gallu bod o weithgareddau Sgowtio neu o ddigwyddiadau gan yr Ardal, ond mae'r un rheol ar gyfer cynnwys gweledol arall hefyd yn wir am fideos; os nad oes pwynt ei phostio, peidiwch ei phostio
- Mae'r Canolfan Brandio fel arfer gyda rhai fideos wedi ei gwneud yn barod ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae defnyddio'r rhain yn gallu bod yn dda, ond byddwch yn ofalus i beidio postio'r rhain yn rhy aml – mae'r bobl sy'n rhyngweithio gyda chi eisiau gweld beth sy'n digwydd yn ein hardal ni, ond weithiau mae'n gallu fod yn dda i ddefnyddio rhai'r Sgowtiaid (yn enwedig os ydych yn stryglo am gynnwys



Mae gan y Canolfan Brandio nifer o fideos. Maen nhw wedi ei wneud yn broffesiynol ac yn gallu edrych yn dda iawn rhwng fideos eich hun.

Dyma'r syniad ar gyfer fideo '3 Cwestiwn Gyda...' cafon ni – roeddem ni'n meddwl bydd yn ffordd dda i bobl ddod i wybod Sgowtiaid ac arweinwyr yr Ynys – gall rhain fod yn dda iawn os ydych yn rhedeg bathodyn ddigidol dros y cyfryngau cymdeithasol ac mae gennych chi arweinydd gydag arbenigedd yn y maes hynny, i ddod i wybod y pobl yn eich ardal ac mae'n rhwybeth personol i ychwanegu at eich tudalen

Three questions

with Ben Exton

#ThreeQuestionsWith
#ScoutsMon
#SgowtiaidMôn



Scouts
Ynys Môn
Anglesey

Postio a rheoli eich cynnwys |

Cyflwyniad i Hootsuite.

Beth yw Hootsuite?

- Mae Hootsuite yn wefan sy'n caniatáu i chi amserlenni cynnwys ar eich llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (mae pob un o rhai ni wedi cael eu cysylltu i'n cyfrif).
- Mae'n gwneud postio cynnwys cymaint yn haws ac mae popeth yn gallu cael ei wneud mewn un lle – does dim angen logio mewn i nifer o wefannau gwahanol.
- Mae modd cael disgownt ar gyfer elusennau felly cofiwch ymgeisio am hyn.




Dechreuwch ysgrifennu cynnwys yma

'Streams'

- Mae un ar gyfer pob llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol – mae modd gweld cynnwys ar ôl cael ei chyhoeddi a phopeth sydd wedi'i amserlenni (fel bod modd eu newid os oes angen)

Postio trwy Hootsuite...

Dewiswch pa lwyfan rydych chi eisiau postio i (mae modd dewis mwy nag un e.e. Facebook ac Instagram)



Testun eich cynnwys

Cyfrif cymeriad
(Nowch: mae hyn yn gwahanol ar gyfer llwyfannau gwahanol).


Rhagolwg

Poatio a rheoli eich cynnwys II

Cyflwyniad i Hootsuite.

Postio ar Hootsuite, parhad...

Mewnosod lluniau a fideos




Os hoffech chi amserlenni cynnwys, dewiswch dyddiad ac amser

Gorffen amserlenni eich cynnwys

Dod i arfer gyda Hootsuite:

- Mae Hootsuite yn gallu bod yn hawdd iawn i'w ddefnyddio, unwaith rydych chi'n gwybod sut i'w ddefnyddio. Bydd angen cael ymarfer cyn i chi ddechrau postio unrhyw beth. Unwaith rydych chi'n gwybod sut i'w ddefnyddio mae popeth lot haws.
- Bydd yn cymryd amser i chi ysgrifennu cynnwys yn y dechrau, oherwydd eich bod chi'n dysgu sut i ddefnyddio Hootsuite. Byddech chi'n dod i arfer postio ar lwyfannau gwahanol a theilwra cynnwys i lwyfannau gwahanol.




Go here for help!


Dadansoddi I

Sut mae Hootsuite yn mesur tyfiant a llwyddiant.

Ffeindio eich dadansoddiadau




Edrych ar a lawrlwytho'r dadansoddiadau



Mynediad l'ch llwyfannau cyfyngau cymdeithasol



Mae modd lawrlwytho eich dadansoddiadau PowerPoint yma
A bydd yn rhoi sleiciau fel hyn i chi:



Dadansoddi II

Facebook dros Hootsuite. Esiampl.

Rydym ni wedi bod yn postio rhwng 1 a 3 post y dydd, ond weithiau mwy



Mai 12fed

Dechreuon ni postio yn fwy aml

Mae pobl yn dechrau 'dat-hoffi' neu stopio eich dilyn yn gallu bod yn ddangosiad da bod angen newid beth ydych yn gwneud. Gwelwch fel cyfle i newid beth ydych yn gwneud.

Nodwch: mae colli un neu ddau person dros misoedd ar ben ei hun ddim yn digon i awgrymu bod angen newid eich cynnwys

Tipiau

Y tipiau cafon ni o'r cyfweiliadau a'r ymchwil.

- Postiwch i fwy nag un llwyfan ar y tro – mi fydd yn gwneud bywyd yn haws a sicrhau bod eich cynnwys yn cyrraedd fwy o bobl
- Mae gan Hootsuite swyddogaeth 'chat' os oes angen help arnoch. Mae hefyd gwefan help is nad ydy hyn yn gweithio.
- Cadwch lygad ar sawl person sy'n eich dilyn – gallech chi ddefnyddio dadansoddiadau Hootsuite neu edrych ar y safle ei hun (e.e. mae Instagram yn dangos i chi sawl person sy'n eich dilyn). Wedyn bydd un haws i weithio ar gynyddu sawl person sy'n eich dilyn a gweld pa fath o gynnwys sy'n gweithio gorau o ran rhyngweithiad.
- Cadwch fanc o hashnodau gallech chi ddefnyddio ar gyfer popeth, a gallech chi ychwanegu mwy at eich cynnwys. Rhai da i gadw mewn meddwl yw:
 - #ScoutsMon
 - #SgowtiaidMon
 - #SkillsForLife
 - #SgiliauAmFywyd
- Os ydy'r brandio yn newid, cofiwch i newid y lluniau proffil ar y cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd gyda hyn. Bydd hyn yn golygu eich bod chi'n cadw lan i ddyddiad gyda brand Sgowtio a byddech chi ddim yn rhedeg y risg o fod yn hen ffasiwn neu allan o ddyddiad

Adnoddau

Adnoddau ddefnyddiol i'ch help chi.

- Canolfan Brandio (scoutsbrand.org.uk/)
- ScoutsCymru & proffilau cymdeithasol eraill
- Lluniau stoc am ddim: PixaBay, FreePic, UnSplash
- Cerddoriaeth am ddim: Filmstro, Free Music Archive, Dig.ccMixter
- 'How to make 64 pieces of content in a day', gan Gray Vee

Atodiad 1 – Ein Strategaeth

Pan penderfynon ni i ddefnyddio'r wê.

Nod:

Mae Sgowtio ar Ynys Fôn yn cael ei ganfod yn anghywir fel mudiad hen ffasiwn, dosbarth canol, Saesneg a marw. Ein bwriad ni yw i newid y canfyddiad yma a, trwy gwneud hyn, gwella'r recriwtio o bobl ifanc a gwirfoddolwyr oedolion i Sgowtio

Dull (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg):

- I ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol i helpu i newid y canfyddiad hon a trwy hynny cynyddu faint o aelodau ieuenctid, gwirfoddolwyr newydd a pobl eraill yn y gymuned yn gweld Sgowtio fel cyfle deniadol.
- Mae gan Ynys Fôn cymuned fawr o siaradwyr Cymraeg, felly rydym ni am sicrhau bod unrhyw cynnwys rydym ni'n rhoi ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn ddwy ieithog gyda hoffter tuag at yr Iaith Gymraeg.

Cyfrifau i'w ddefnyddio:

	Cymraeg	Saesneg
Instagram	@ScoutsMon	@ScoutsMon
Twitter	@SgowtiaidMon	@ScoutsMon
Facebook	Ynys Môn / Anglesey Scout Council	Ynys Môn / Anglesey Scout Council

Ein tactegau:

- Wastad postio yn Gymraeg, wedi'i ddilyn gyda'r cyfeithiad Saesneg
- Postiwch a rhannu cynnwys o grwpiau Sgowtio ein Ardal
- Sicrhau ein bod ni'n rhannu cynnwys wedi'i postio gan ScoutsCymru, Cymdeithas y Sgowtiaid ynghlyn a'r Llysgenhadon Sgowtio
- Sicrhau bod y rhan fwyaf o'n cynnwys am Sgowtio yn ein Hardal

Atodiad 1 – Ein Strategaeth

Pan penderfynon ni i ddefnyddio'r wê.

Postio:

Targed/amlder: unwaith y diwrnod i sicrhau bod gennym ni presenoldeb da ar ein tudalennau.

Dilyn: byddem ni'n dilyn busnesau a pobl lleol ynghlyn a cyfrifau sy'n perthnasol i'n achos, fel ScoutsCymru.

Rhannu/aildrydaru: rhannwch unrhyw cynnwys lle rydym ni wedi cael ein tagio, ac unrhyw cynnwys sy'n perthnasol i ni gan cyfrifau Sgowtio eraill a'r pobl/busensau lleol rydym am ddilyn.

Hoffi: sicrhau ein bod ni'n hoffi'r tudalennau sy'n perthnasol i ni ac unrhyw cynnwys neu tudalennau gan y pobl neu busnesau lleol rydym ni am ddilyn.

Gwefan:

Bydd cynnwys sydd ar ein proffilau Cyfryngau Cymdeithasol hefyd yn ymddangos ar ein gwefan. Bydd gennym ni llif Cyfryngau Cymdeithasol ar ein gwefan yn ogystal a'r tudalen Blog. Byddem ni'n ysgrifennu cynnwys i'r Blog a creu cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol o'r rhain.

Ystyriaethau Penodol:

1. Osgoi postio, aildrydaru neu rhannu gormos o gynnwys Saesneg yn unig.
2. Ymgorffori'r ideoleg modern o 'gwirfoddoli hyblyg' yn ein ymagwedd Cyfryngau Cymdeithasol.
3. Adlynu wrth frandio Cymdeithas y Sgowtiaid, ond bod yn ofalus i beidio rhannu gormod o gynnwys 'geneig' Sgowtio.
4. Ail-ddefnyddio cynnwys lle bynnag mae'n bosib – rydym ni eisiau gwneud y mwyaf o werth y cynnwys rydym ni'n cynhyrchu os ydy'r cynnwys yn parhau i weithio ac yn derbyn rhyngweithiad ar lein.
5. Defnyddio popeth mae gan llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol yn medru cynnig – gwnewch y fwyaf o'r ffaith bod popeth ar lein a sicrhau ein bod ni'n cael y fwyaf o'r llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol a'i chryfderau

Atodiad 2 – Eich Strategaeth

Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol?

Nod:

Beth yw eich nod? Beth yw eich bwriad? Beth ydych chi eisiau newid neu gwella?

Dull:

Sut ydych chi'n mynd i ddechrau defnyddio'r byd ar lein? Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r laith Gymraeg yn eich defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol?

Cyfrifau i'w ddefnyddio:

Llenwch y tabl gyda'r cyfrifau Cyfryngau Cymdeithasol i gyd rydych chi am ddefnyddio yn eich dull ar lein. Bydd hyn yn eich helpu i gadw trac o lle rydych chi angen postio a chreu cynnwys

	Cymraeg	Saesneg
Instagram		
Twitter		
Facebook		

Eich tactegau:

Oes gennych chi unrhyw tactegau penodol rydych chi'n bwriadu defnyddio? Meddyliwch am sut gallech chi gwneud y gorau o ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol, a beth bydd eich blaenoriaethau wrth ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol.

Atodiad 2 – Eich Strategaeth

Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol?

Postio:

Targed/amlder: *pa mor aml ydych chi'n bwriadu postio?*

Dilyn: *pwy byddech chi'n dilyn? Pam ydych chi eisiau ei ddilyn?*

Rhannu/aildrydaru: *cynnwys pwy ydych chi'n bwriadu rhannu? Pa fath o gynnwys ydych chi eisiau rhannu? Sut bydd hyn yn buddio eich achos?*

Hoffi: *pa gynnwys/tudalennau byddech chi;n sicrhau o hoffi?*

Gwefan:

A oes gennych chi wefan? Sut fyddech chi'n ymgorffori'r defnydd o'r Cyfrngau Cymdeithasol ar eich gwefan? A oes ffordd i'ch gwefan a'ch llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol i gael unrhyw gynnwys tebyg?

Ystyriaethau penodol:

Beth fydd yn bwysig i chi ystyried yn benodol cyn ddefnyddio'r Cyfyngau Cymdeithasol? Mae rhain yn mynd i fod yn wahanol i bawb, yn dibynnu ar eich Ardal a lle yn y wlad ydych chi, felly mae angen ystyried pwy fydd eich cynulleidfa a pha cynulleidfa ydych chi eisiau cyrraedd.